

.Cyngor Cymuned Betws-y-Coed  
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 13eg Fawrth 2023

Presennol– Neil Pringle Cadeirydd, Ffiona Jones, Janet Charlton Cyng Elisabeth Roberts, Caerwyn Roberts, Clerc.

Ymddiheuriadau - Mari E M Mathews. Catherine Williams, Janet Charlton  
Datgan diddordeb - Dim datganiad  
Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 13eg Chwefror 2023

Materion yn codi

(1) Yr Heddlu

Cyfeiriodd y clerch at yr adroddiad canlynol ;

[a] Ymddwyn gwrth gymdeithasol. Rhywun yn goleuo lamp trwy ffenestr y gegin. Mwy o bresenoldeb yn yr ardal gan yr heddlu.

[b] Amgylchiadau amheus. 10 bag bach o bowdr gwyn wedi ei ddarganfod. Yr heddlu wedi ei casglu.

[c] Cwn peryglus. Yr heddlu wedi bod yn bresennol ac wedi anfon llythyr o rybudd i'r perchennog

[d] Beiciau modur wedi ei gweld yn defnyddio ffordd yn y goedwig. Yr heddlu yn cysylltu gyda'r gyrwyr.

[1.1] Pont Droed/ Pont-y-Pair

Dywedodd y clerch bod trefniadau i'w gwneud i gwrdd yn ystod mis Ebrill.

[1.2] Tai Fforddiadwy/ Cartrefi Conwy

Dywedodd y Cyng E Roberts bod disgwyliad i ddogfennau gan Ystâd Ancaster.

[1.3] Materion Parcio Bro Gethin

Y Cadeirydd i amlinellu'r sefyllfa ddiweddara yn y cyfarfod nesa.

[1.4] Llystyfiant Pont-y-Pair

Nodwyd bod prif wariant Cyngor BS Conwy wedi ei ohirio hyd nes bydd blaenoriaeth wedi ei wneud i adolygiad i'r brif raglen ym mis Mawrth.

[1.5] Dyn mewn Fan

Yn dilyn cyfarfod gyda APCE, nodwyd bod Edward Jones o'r Parc wedi cytuno i baratoi taflen Gwaith.

[1.6] Swyddog Rheoli Prosiect

Y clerch i anfon taflen gradda cyflogau NALC i'r Cadeirydd.

[1.7] Clwb Peldroed Betws/ Codi Uchder y Ffens / Ystafelloedd Newid

Penderfynwyd i gyfrannu £600.00 a gofyn am 3 amcan bris ar gyfer cegin newydd. Cytunodd y Cyng Neil Pringle i gysylltu gyda Mr Tony Godebert

[1.8] Safle We'r Cyngor

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.9] Hen Eglwys Saint Mihangel/ Cyflwr y fynwent

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[2] Mynwent Erw Hedd

Nodwyd atebiad gan Gary Williams [Cyngor B S Conwy] ynglŷn â threfniadau ar gyfer claddu yn y fynwent. Cadarnhaodd y bydd yn cysylltu'n mhellach.

[2.1] Canolfannau Clyd

Nodwyd bod y gwasanaeth yn parhau ar gyfer y gymuned.

[2.2] Gwelliannau Glan yr Afon Pont-y-Pair

Adroddodd y clerc bod y prif welliannau wedi ei cwblhau ond bod angen gwaith ychwanegol sef gosod ffens blastig a mwy o botiau blodau gydag amcan gost o £1400.00. Penderfynwyd cymeradwyo'r gwaith ychwanegol.

[2.3] Rhaglen Gwella Ffyrdd

Dywedodd y Cyng Elisabeth Roberts ei body n cysylltu gyda Simon Barkley ynglŷn ar matter.

[2.4] Cae Chwarae Pentre' Du

Y Cyng Elisabeth Roberts i gynghori ynglŷn â lleoliad y byrddau

[2.5] Ms Beth Thomas

Y clerc ysgrifennu at Ms Thomas ynglŷn â'i aelodaeth ar y Cyngor Cymuned, yn cynghori os na fydd ateb wedi ei dderbyn erbyn diwedd y mis y bydd y sedd yn cael ei datgan yn wag.

Y Brif Agenda

[2.6] Teithio Llesol/Pont-y-Soldiwr

Croesawyd Mr Andy Wilkinson a Mr Gwyn Parry i'r cyfarfod ac amlinellwyd ganddynt gwahanol ddewisiadau i atgyweirio neu creu pont o'r newydd gan ystyried costau atgyweirio'r hen bont. Deallwyd bod y Cyngor Sir yn gweithio hefyd gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a'r Parc Cenedlaethol i ddarparu llwybrau ar gyfer cerdded, becio ayb a bod y cyfan o ddeutu 2 flynedd o gael ei gwblhau.

[2.7] Materion Cynllunio

[a] Diddymu Cytundeb Adran 52 mewn perthynas cais cynllunio NP4/11/10B. Lleiniau 4&5 Parc Trawsafon, Betws-y-Coed.

Penderfynwyd y dylai'r cais gael ei benderfynu gan Bwyllgor Cynllunio'r Parc Cenedlaethol.

[b] Bronant, Pentre' Du. Apêl yn erbyn gwrthod i ganiatáu cais cynllunio.

Nodwyd bod yr apêl ei wrthod.

[2.8] Materion Ariannol

[a] Cymeradwywyd y taliadau a'r derbyniadau a amlinellwyd gan y clerc i ddiwedd Chwefror 2023

[b] Eglurodd y clerc bod y nifer yn ymweld ar Raeadr Ewynnol wedi gostwng yn gymharol i gyfnod mis Chwefror 2022.

[c] Cyllideb 2023/24. Cymeradawyd y gyllideb a baratowyd gan y clerc.

[d] Adroddiad yr Archwiliwr Allanol. Nodwyd nad oedd unrhyw fater angen sylw.

[2.9] Aseiad Risg Neuadd Goffa/Rhaeadr Ewynno!

Cymeradawyd yr aseiad risg a baratowyd gan y clerc ar gyfer y ddau leoliad. Y clerc i gysylltu gyda Chyngor BS Conwy ynglŷn ag asbestos o fewn y neuadd.

[3.2] Byrddau'n Cysgodi Lleoliad Gwag wrth Westy'r Pont-y-Pair.

Gan nodi cyflwr y byrddau, y clerc i gysylltu gyda Ms Jane Jones APCE I geisio gwybodaeth ynglŷn â pherchnogaeth yr eiddo.

Mari E N Mathews, Cadeirydd